# Atodiad 1 – Ceisiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref Horizon Cyfyngiad cronni y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("Horizon") yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref am nifer o ddatblygiadau sydd yn gysylltiedig ag adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa Newydd. Efallai bydd rhai o'r datblygiadau hyn yn gofyn i Horizon ymrwymo i rwymedigaethau cynllunio gyda Chyngor Sir Ynys Môn, wedi'i ddiogelu drwy gytundeb(au) dan Adran 106 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref ("Cytundebau A. 106").

1.2 Mae'r nodyn hwn yn cyfeirio at y cyfyngiad cronni a gynhwysir yn Rheoliad 123 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, ac yn egluro sut bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod rhwymedigaethau cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 parthed datblygiadau'r dyfodol a hyrwyddir er mwyn sicrhau nad yw'r rhwymedigaethau hynny yn torri'r cyfyngiad cronni o fewn y Rheoliadau.

## 2 RHEOLIAD 123

2.1 Mae Rheoliad 123(3) y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cynnwys y cyfyngiad cronni. I grynhoi, effaith y cyfyngiad yw pan fo mwy na phum rhwymedigaeth cynllunio wedi'u cofnodi ers 6 Ebrill 2010, sydd yn berthnasol naill ai i (a) fath o seilwaith neu (b) prosiect seilwaith penodol, ni allant eu cymryd i ystyriaeth fel rheswm am roi caniatâd cynllunio.

2.2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu ac wedi cynnal cofrestr o'r rhwymedigaethau cynllunio y mae wedi'i ymrwymo iddynt ers 6 Ebrill 2010. Felly mae'n ymwybodol o nifer y rhwymedigaethau y mae wedi'i ymrwymo iddynt yn barod yng nghyd-destun y mathau o seilwaith neu brosiectau seilwaith penodol ac, felly, a fyddai'n rhoi rhwymedigaethau eraill i ystyriaeth (ac yn ymrwymo i Gytundebau adran 106 pellach) heb dorri'r cyfyngiad cronni.

## 3 DULL CYNGOR SIR YNYS MÔN

3.1 Yng nghyswllt ceisiadau Horizon, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried ei bod yn annhebygol bydd perygl o dorri'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol oherwydd, yn y mwyafrif o achosion, mae'r datblygiadau'n amrywio o ran natur. O ganlyniad, bydd y lliniariad (ac felly'r rhwymedigaethau cynllunio) bydd pob datblygiad ei angen yn amrywio. Er enghraifft, byddai'r rhwymedigaethau cynllunio y bydd efallai eu hangen i liniaru cynllun parcio a theithio yn wahanol iawn ei natur a'i raddfa i rwymedigaethau sydd eu hangen i liniaru llety gweithwyr. O ganlyniad, ni ddylai'r rhwymedigaethau fod yn yr un gronfa.

3.2 Mewn unrhyw achos, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn gofyn bod bob rhwymedigaeth cynllunio yn cael eu gwneud mor benodol ag y bo modd. Bydd hyn yn osgoi cynigion

tebyg yn arwain at rwymedigaethau fydd yn torri'r cyfyngiad. Caiff hyn ei gyflawni trwy gysylltu'r rhwymedigaethau i'r eitemau seilwaith penodol. Mae'r math hwn o ddatblygiad, ble mae fwyaf tebygol o fod yn berthnasol, parthed llety gweithwyr ble bydd effeithiau tebyg yn codi ar bob cynnig, a fydd o ganlyniad, yn gofyn am rwymedigaethau tebyg yn y Cytundeb 106 perthnasol. Er enghraifft, yn hytrach na bod gofyn am gyfraniad cyffredinol at addysg, bydd gofyn am gyfraniad at ysgol benodol neu ardal benodol a effeithir. Dyma'r dull a fabwysiadwyd yn natblygiad *Land and Lakes* a gafodd ganiatâd am lety gweithwyr niwclear yn ddiweddar, ble y mynegir fod rhwymedigaethau yn berthnasol i ardal benodol.

3.3 Bydd yr ardaloedd daearyddol yn cael eu diffinio mor dynn ag y bo modd i leihau'r perygl o orgyffwrdd. Fel y gwelir o'r cynllun atoedig i'r nodyn hwn yn Atodiad A1[1], mae yna wahaniad daearyddol arwyddocaol rhwng nifer o ddatblygiadau arfaethedig Horizon, a ddylai fod o gymorth i Gyngor Sir Ynys Môn wrth ddilyn y dull hwn.

3.4 Os oes angen, bydd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ystyried a ddylid rhannu eitem seilwaith yn ddarnau, fel y gellir creu cronfa ar wahân i bob rhan. Er bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod nad yw bob tro'n briodol rhannu eitemau seilwaith, gellir mabwysiadu'r dull hwn os gellir adnabod prosiectau gwahanol yn gyfreithiol. Dyma ddull sydd wedi'i fabwysiadau mewn Cytundebau Adran 106 eraill i fod o gymorth wrth sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.

3.5 Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael trafodaethau gyda Horizon parthed y materion hyn ac mae Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon yn hyderus y gall unrhyw ymrwymiadau cynllunio a allai fod yn ofynnol parthed ceisiadau Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn y dyfodol sydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd gael eu gosod mewn ffordd sydd yn sicrhau nad ydynt yn torri gofynion y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.

**Burges Salmon**

**18 Hydref 2016**

[1]Cymerwyd y cynllun o ddogfen Trosolwg Ymgynghoriaeth Horizon (2016)

**Atodiad A**

Lleoliad mynegol o ddatblygiadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref Horizon